



**CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU (UKSPF) : GOGLEDD CYMRU
CANLLAWIAU - CAIS CAM 1**

Cynghorir darpar ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdod(au) lleol lle yr ydych yn bwriadu gweithredu eich prosiect cyn cyflwyno cais. Bydd hyn yn gymorth i sicrhau fod y prosiect arfaethedig yn gymwys a bod y broses ymgeisio wedi cael ei deall ac y glynir ati.

Manylion yr Ymgeisydd

- Nodwch enw a chyfeiriad cofrestredig sefydliad yr ymgeisydd. Mewn perthynas â cheisiadau ar y cyd, sy'n cynnwys mwy nag un sefydliad cyflwyno, nodwch fanylion y sefydliad arweiniol. Dylid nodi manylion y sefydliadau partner yn y disgrifiad o'r prosiect.
- Dewiswch fath y sefydliad. Rhaid i'r sefydliad ymgeisio fod yn gymwys/bod â statws cyfreithiol i dderbyn arian.
- Nodwch enw, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn a swydd yn y sefydliad ar gyfer noddwr/cyswllt arweiniol y prosiect, a'r un manylion ar gyfer dirprwy. Dyma'r bobl y bydd unrhyw ymholiadau ymgeisio Cam 1 yn cael eu codi â nhw.
- Nodwch gyfeiriad gwefan y sefydliad.
- Nodwch rif cwmni neu rif elusen y sefydliad.

Manylion y Prosiect

- Nodwch enw'r prosiect. Hwn fydd yr enw a ddefnyddir ar gyfer unrhyw gyswllt UKSPF yn y dyfodol, gan gynnwys gweithgareddau hyrwyddo.
- Dewiswch statws prosiect o'r opsiynau canlynol:
 - Wrthi'n cael ei ddatblygu - mae'r prosiect wrthi'n cael ei lunio ond mae angen peth gwaith datblygu a chynllunio pellach.
 - Yn barod i ddechrau - mae'r prosiect wedi'i ddatblygu'n llawn a'r cwbl sydd ei angen yw cyllid UKSPF fel ei fod yn cael bwrw ymlaen.
 - Yn cael ei gyflwyno/parhau - mae'r prosiect wrthi'n cael ei gyflwyno ond mae arno angen cyllid UKSPF er mwyn iddo fedru parhau.
 - Arall - esboniwch os gwelwch yn dda.
- Dewiswch y siroedd lle y bydd y prosiect yn cael ei gyflwyno. Gellir gweithredu'r prosiect ar draws sawl sir yng Ngogledd Cymru neu fe all fod yn weithredol mewn un sir yn unig. Bydd angen i brosiectau sydd hefyd yn bwriadu cyflawni y tu allan i ranbarth Gogledd Cymru ddilyn y broses ymgeisio ar gyfer y rhanbarthau neu'r awdurdodau lleol perthnasol hynny er mwyn gwneud cais am gyllid yn yr ardaloedd dan sylw.



CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU (UKSPF) : GOGLEDD CYMRU
CANLLAWIAU - CAIS CAM 1

- Dewiswch y brif Flaenoriaeth Buddsoddi UKSPF. Rhaid i'r prosiectau arfaethedig ymdrin ag un o flaenoriaethau buddsoddi'r UKSPF:
 - Cymunedau a Lle
 - Cefnogi Busnes Lleol
 - Pobl a Sgiliau
 - Lluosi
- Cyfeiriwch at '**Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU - Prosbectws, Adran 2 - Beth i ddefnyddio'r arian ar ei gyfer**', am ragor o wybodaeth ac arweiniad:

<https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-prospectus/cy>

- Nodwch ba ymyrraeth/ymyraethau dan y Flaenoriaeth Buddsoddi UKSPF yr ydych wedi'i dewis sy'n alinio â gweithgareddau ac amcanion y prosiect. Cyfeiriwch at '**Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU - Ymyriadau, Amcanion, Canlyniadau ac Allbynnau - Cymru**', am ragor o wybodaeth ac arweiniad.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1070712/Rhestr_o_Allbynnau_a_Dangosyddion_ar_gyfer_Cymru.pdf

Efallai y rhoddir blaenoriaeth i'r prosiectau hynny sy'n cyflawni'r ymyraethau allweddol a allai fod wedi cael eu hadnabod gan bob awdurdod lleol. Cyfeiriwch at wefannau'r awdurdodau lleol perthnasol am ragor o wybodaeth ynghylch p'un a oes ymyraethau penodol wedi'u hadnabod fel blaenoriaeth ar gyfer pob sir.

- Nodwch yr allbynnau a'r deilliannau perthnasol a'r niferoedd targed i'w cyflawni yn erbyn yr ymyrraeth/ymyraethau a ddewisir. Cyfeiriwch at '**Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU - Ymyriadau, Amcanion, Canlyniadau ac Allbynnau – Cymru**', am ragor o wybodaeth ac arweiniad.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1070712/Rhestr_o_Allbynnau_a_Dangosyddion_ar_gyfer_Cymru.pdf

- Nodwch ddyddiad dechrau a gorffen y prosiect. Ni ddylai'r prosiect ddechrau cyn 1 Ebrill 2022, ac mae'n rhaid ei gwblhau a gwario'r holl arian UKSPF erbyn **31 Rhagfyr 2024** fan bellaf.



CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU (UKSPF) : GOGLEDD CYMRU
CANLLAWIAU - CAIS CAM 1

Disgrifiad o'r Prosiect

- Rhowch ddisgrifiad cryno o'r prosiect, beth fydd hyn yn ei olygu a sut fydd yn cael ei weithredu.
- Rhaid i'r prosiectau fod yn strategol er mwyn cael yr effaith fwyaf a bod yn fwyaf cyflawnadwy, gydag isafswm gwerth o £250,000 o gyllid UKSPF (rhagwelir bod prosiectau sy'n ymgeisio am gyllid UKSPF dros £1M neu fwy ar gyfartaledd). Efallai y bydd modd i sefydliadau sy'n ceisio am brosiect gyda gwerth sy'n llai na £250,000 gael mynediad at gyllid drwy amrywiaeth o raglenni grant a allai gael eu cyflwyno â chyllid UKSPF.
- Mae'r UKSPF yn rhaglen sy'n seiliedig ar refeniw yn bennaf ac nid yw wedi'i fwriadu i gefnogi prosiectau isadeiledd mawr. Gellid cynnwys elfennau llai o wariant cyfalaf sydd wedi'u cynnwys mewn prosiect ehangach sy'n seiliedig ar refeniw, yn yr un modd â phrosiectau sy'n dosbarthu grantiau cyfalaf bychan neu waith ar draws nifer o gymunedau neu fusnesau.
- Esboniwch pam fod angen y prosiect hwn yn y sir(oedd) sydd wedi'u dewis. Rhaid i brosiectau adlewyrchu anghenion a chyfleoedd lleol a dangos sut fyddant yn:
 - i gwella'r ymdeimlad o falchder yn y sir(oedd) ac adeiladu gwytnwch cymunedol
 - galluogi busnesau lleol i ffynnu a datblygu
 - lleihau'r rhwystrau sy'n wynebu trigolion y sir(oedd) dan sylw sy'n eu hatal rhag symud i waith ac addysg
- Rhowch fanylion y gweithgareddau penodol y prosiect fydd yn cael eu cyflwyno.
- Nodwch fanylion y sefydliadau fydd ynghlwm â chyflawni'r prosiect a'u rolau a'u cyfrifoldebau perthnasol. Esboniwch p'un a ydynt yn bartneriaid a rhan-ddeiliaid presennol gyda'r prosiect neu p'un a fydd angen eu caffael a'u contractio.
- Nodwch pwy yw rhan-ddeiliaid posib y prosiect. Gallai hyn gynnwys buddiolwyr o leoliad daearyddol penodol neu fuddiolwyr o grwpiau targed penodol. Ni ddylai'r prosiect fod er budd y sefydliad sy'n gwneud cais yn unig. Rhaid i'r prosiect arddangos budd ehangach ar gyfer trigolion, busnesau, cymunedau a'r amgylchedd/tir cyhoeddus y sir neu ranbarth Gogledd Cymru.
- Disgrifiwch nodau ac amcanion y prosiect (h.y. beth mae'n ceisio ei gyflawni).
- Nodwch lle yn y sir(oedd) y bydd y prosiect yn cael ei gyflwyno; gall hwn fod yn lleoliad penodol neu ledled y sir. Mae angen cyflwyno'r prosiect yn y sir, naill ai fel prosiect ar ei ben ei hun, neu gael ei gyflwyno mewn ardaloedd awdurdod lleol eraill ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.



CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU (UKSPF) : GOGLEDD CYMRU
CANLLAWIAU - CAIS CAM 1

Profiad a Chapasiti'r Ymgeisydd

- Nodwch pa brofiad sydd gan y sefydliad o gyflwyno prosiectau o faint a graddfa tebyg ac o weithio ar y cyd gydag unrhyw ddarpar bartneriaid. Dangoswch bod gan y sefydliad yr adnoddau, y capasiti a'r arbenigedd angenrheidiol i gyflawni'r prosiect o fewn amserlen yr UKSPF a bod ganddo'r gallu i gydymffurfio â'r rheolau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â chynlluniau cyllido Llywodraeth y DU.

Ariannol

- Nodwch Gyfanswm cost y prosiect a Chyfanswm grant UKSPF y gwneir cais amdano.
- Darparwch drawstoriad ariannol o'r cais UKSPF ar gyfer Blwyddyn 1 (2023/24) a Blwyddyn 2 (2024/25) yn nhermau Refeniw a Chyfalaf.
- Rhestrwch swm a ffynhonnell unrhyw gyllid cyfatebol sydd wedi'i sicrhau neu lle mae cais wedi'i wneud amdano. Nodwch y dyddiad pan sicrhawyd y cyllid cyfatebol neu pa bryd y rhagwelir penderfyniad. Ni ddylid ond cynnwys arian cyfatebol mewn arian; ni fydd cyfraniadau mewn nwyddau (megis amser staff a gwirfoddolwyr, darparu nwyddau a gwasanaethau ac ati), yn cael eu hystyried. Nid yw'n hanfodol cael arian cyfatebol, ond mae hyn yn cael ei annog.
- Darparwch fanylion unrhyw gostau ôl-weithredol a gafwyd (o 1 Ebrill 2022), fydd yn cael eu hawlio. Esboniwch pam fod hyn yn angenrheidiol. Dim ond costau sydd wedi cael gwario'n uniongyrchol gan y prosiect ac sydd wedi cael eu caffael yn unol â rheolau a gofynion yr UKSPF fydd yn gymwys am gyllid ôl-weithredol.
- Darparwch drawstoriad o'r gwariant o dan yr amrywiol gategoriau gwario. Gallai hyn gynnwys costau adeiladu, costau cyflwyno gwasanaethau, costau staff, gorbenion y sefydliad.
- Esboniwch sut mae cyllideb y prosiect wedi cael ei chyfrifo. Gallai hyn gynnwys darparu dyfynbrisiau ac amcan-brisiau neu gostau enghreifftiol a ddefnyddiwyd o brosiectau tebyg sydd wedi cael eu cyflwyno.

Addasrwydd Strategol

- Dangoswch sut mae'r prosiect yn ymdrin â blaenoriaethau'r cynlluniau a'r strategaethau lleol perthnasol a sut mae hyn yn alinio â'r gweithgareddau a'r mentrau eraill presennol neu a fwriedir sy'n cael eu cyflawni yn y sir. Ni ddylai'r prosiect ddyblygu gwasanaethau, gweithgareddau neu gyfleusterau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fe all ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth bresennol, neu ei hategu. Cyfeiriwch at wefannau'r awdurdod lleol perthnasol am ragor o wybodaeth ac ar gyfer dogfennau allweddol megis cynlluniau Cyngor, cynlluniau Llesiant a strategaethau Datblygu Economaidd neu Adfywio.



**CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU (UKSPF) : GOGLEDD CYMRU
CANLLAWIAU - CAIS CAM 1**

- Dangoswch sut mae'r prosiect yn ymdrin â blaenoriaethau'r cynlluniau a'r strategaethau rhanbarthol a chenedlaethol.
- Darparwch fanylion unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu â buddiolwyr, rhan-ddeiliaid a phartneriaid posib a wnaed. Nodwch ddeiliant yr ymgynghoriad hwn ac eglurwch sut y mae wedi dylanwadu ar ddatblygiad y prosiect. Argymhellir ymgysylltu mewn ffordd sy'n adlewyrchu egwyddorion cynaladwyedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y prosiectau sy'n arddangos cydweithredu ac ymgysylltu lleol cryf yn cael eu sgorio'n fwy ffafriol.

Cerrig Milltir y Prosiect

- Nodwch y cerrig milltir allweddol a'r dyddiadau y bydd rhain yn cael eu cyflawni neu eu cwblhau. Gallai hyn gynnwys penodi staff, contractwyr neu gyflwynwyr gwasanaeth; camau amrywiol prosiect adeiladu; camau cyflawni gweithgaredd, ac ati. Defnyddir y cynllun cyflwyno i fonitro a thracio cynnydd y prosiect.

Ceisiadau ar gyfer mwy nag un Awdurdod Lleol

- Os yn cyflawni mewn mwy nag un ardal Awdurdod Lleol, nodwch sut y bydd costau'r prosiect ac allbynnau yn cael eu dosbarthu (mae % yn dderbyniol ar gyfer y cam yma).

Rheoli Cymorthdaliadau

- Nodwch p'un a fydd unrhyw elfennau o'r prosiect yn cynnwys darparu cymhorthdal. Bydd angen i'r prosiect ystyried p'un a yw'r gweithgareddau arfaethedig yn bodloni'r pedwar nodwedd cymhorthdal ac felly ei fod yn cael ei ystyried yn gymhorthdal. Os ystyrir bod y prosiect yn gymhorthdal, bydd angen iddo arddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion rheoli cymhorthdal. Cyfeiriwch at wefan yr '**UK Government Subsidy Control Regime**' am ragor o arweiniad. <https://www.gov.uk/government/collections/subsidy-control-regime>

Y Gymraeg

- Nodwch p'un a oes gan y sefydliad Bolisi neu Ddatganiad Iaith Gymraeg yn ei le. Efallai y gwneir cais am gopi ohono.
- Nodwch p'un a oes modd cyflwyno holl wasanaethau a/neu ddeunyddiau'r prosiect yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg). Os ddim, eglurwch pam nad yw hyn yn bosibl/berthnasol.



CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU (UKSPF) : GOGLEDD CYMRU
CANLLAWIAU - CAIS CAM 1

Sero Net

- Esboniwrch sut mae'r prosiect yn ymdrin gydag uchelgais Sero Net Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ynghyd â'u polisiâu a'u dyheadau amgylcheddol ehangach.

<https://www.gov.uk/government/publications/net-zero-strategy>

<https://www.llyw.cymru/cymru-sero-net>

Cydraddoldeb

- Dangoswrch sut mae effeithiau cydraddoldeb wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r prosiect, yn benodol o ran y nodweddion gwarchoddedig, yr iaith Gymraeg a chynladwyedd amgylcheddol. Nodwrch fanylion unrhyw fesurau fydd yn cael eu cymryd i ymdrin â'r effeithiau hyn neu eu lliniaru.

Am ragor o wybodaeth ac arweiniad, cyfeiriwrch at y gwefannau canlynol:

<https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-prospectus.cy>

[Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy](#)

[Cyngor Sir Ddinbych](#)

[Cyngor Sir y Fflint](#)

[Cyngor Gwynedd](#)

[Cyngor Sir Ynys Môn](#)

[Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam](#)

[Uchelgais Gogledd Cymru](#)

Nodwrch -

Mae cyllid yr UKSPF yn gyfyngedig. Efallai y rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sy'n arddangos orau sut maent yn bodloni anghenion a blaenoriaethau lleol, yn ymdrin â nodau ac amcanion Prosbectws yr UKSPF ac yn rhoi gwerth sylweddol am arian.

Gwahoddir ymgeiswyr llwyddiannus i gyflwyno cais Cam 2, lle y bydd angen gwybodaeth fwy manwl ynghylch y prosiect ac am y sefydliad sy'n gwneud cais.

Efallai y bydd modd i ymgeiswyr aflwyddiannus ail-ymgeisio os bydd digon o gyllid UKSPF yn parhau i fod ar gael yn y sir(oedd) lle'r ydych yn bwriadu cyflwyno'r prosiect.

Er bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi'r dyraniad ariannol ar gyfer Gogledd Cymru hyd at Fawrth 2025, mae'r arian i'w ddarparu pob blwyddyn ariannol yn cael ei gadarnhau'n flynyddol. Fydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y llythyr cynnig ffurfiol fydd ymgeiswyr llwyddiannus yn ei dderbyn a dylid ei ystyried wrth i chi gynllunio eich prosiect.